# PAPURAU BUSNES

# 11 EBRILL 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau ar gyfer Dadleuon yn y Dyfodol

**Cynigion a gyflwynwyd ar 4 Ebrill 2000**

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

Mae'r Cynulliad hwn yn nodi:

- Bod llawer o bobl, yn enwedig yr henoed, yn para i aros mewn ysbytai yng Nghymru hyd yn oed pan fônt yn ddigon da i gael eu rhyddhau ac fe'u hatelir felly rhag cael y cyfle i dderbyn gofal yn yr amgylchedd sydd fwyaf addas iddynt
- Bod tua 600 o welyau'r NHS yng Nghymru yn cael eu 'blocio' yn y ffordd hon
- Bod cadw'r bobl hyn mewn gwelyau o'r fath yn costio tua £1.3 miliwn yr wythnos i'r NHS, yn ôl amcangyfrif
- Y byddai rhyddhau y gwelyau hyn sydd wedi'u 'blocio' yn rhoi cyfle i ysbytai Cymru dderbyn 20,000 yn ychwanegol o bobl bob blwyddyn, gan eu galluogi i gwtogi ar yr amserau aros

Mae'r Cynulliad hwn yn penderfynu:

- Sicrhau y gall pob claf dderbyn gofal yn y lleoliad mwyaf priodol
- Sicrhau gwelliant yn y modd y cyfeirir arian i fynd i'r afael â'r broblem o 'flocio gwelyau' drwy drefnu bod adnoddau ychwanegol ar gael yn uniongyrchol i Grwpiau Iechyd Lleol er mwyn iddynt gomisiynu gwasanaethau priodol oddi wrth ddarparwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;
- Hybu strategaethau ar y cyd rhwng yr awdurdodau iechyd, yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r sector gwirfoddol i ddelio'n uniongyrchol â'r broblem o 'flocio gwelyau'
- Mandadu Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i lunio cynllun gweithredu cyn pen tri mis i fynd i'r afael â 'blocio gwelyau' yng Nghymru.

**NDM270**

Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);

Bod y Cynulliad hwn yn gresynu at fethiant y weithrediaeth Lafur i amddiffyn yr economi

wledig a gwasanaethau gwledig yng Nghymru.

**NDM271**

**Gwelliannau a gyflwynwyd 5 Ebrill 2000**

**NDM271**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

**1. Mick Bates (Maldwyn);**

Ar ddiwedd y cynnig, ychwaneger "ac yn cyfarwyddo’r Weithrediaeth i gynhyrchu dangosyddion priodol ar gyfer yr economi wledig ac ansawdd bywyd a fydd yn caniatau i benderfyniadau gael eu gwneud a fydd yn gwyrdoi’r dirywiad yn yr economi wledig a gwasanaethau gwledig"

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 6 Ebrill 2000**

**NDM271**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadau’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

**2. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Yn llinell 1 dileu ‘gresynu at fethiant’ ac ychwanegu ‘pryderu o weld methiant’

**3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

‘sy’n cael eu tanseilio gan werth uchel y bunt.'

**NDM270**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadau’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

**1. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt bwled 7:

', ac annog y Cabinet i ystyried defnyddio rhai o’r adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i Iechyd ar gyfer y strategaethau-ar-y-cyd hynny.'

**2. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);**

Dileu’r atalnod llawn ar ddiwedd pwynt bwled 8 ac ychwanaegu ', gan anelu at ddileu’r broblem yn llwyr erbyn 2003.'

**3. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled newydd ar y diwedd:

'Y dylai’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried strategaeth tymor hir i gynyddu nifer gwelyau’r NHS, recriwtio a chadw staff.'

**4. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe):**

Ar ôl "Mae’r Cynulliad hwn yn nodi" dileu yr ail, y trydydd a’r pedwerydd pwynt bwled._

Ar ôl "Mae’r Cynulliad hwn yn penderfynu" dileu yr ail, y trydydd a’r pedwerydd pwynt bwled a rhoi yn eu lle:

- Hyrwyddo gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, y sectorau gwirfoddol ac annibynnol i ddatblygu ymagwedd system-gyfan ar gyfer atal cleifion rhag cael eu hanfon i’r ysbyty pan fo modd osgoi hynny, darparu triniaeth gyflym ac effeithiol, a rhyddhau amserol i’r lleoliad mwyaf priodol lle ceir y lefel a’r gymysgedd iawn o gefnogaeth.

- Gofyn i’r Ysgrifennydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gynhyrchu o fewn tri mis gynllun cyflawn a fydd yn ymdrin â’r materion hyn.